

PWYLLGOR: PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD: 16 IONAWR 2020
TEITL: CYMERADWYO CYLLIDEB 2020/21
PWRPAS: I gymeradwyo cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21 ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a Uned Buddsoddi
ARGHYMELLIAD: CYMERADWYO'R GYLLIDEB
AWDUR: DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cymeradwyo Cyllideb 2020/21 ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a Uned Buddsoddi.
- 1.2 Yn hanesyddol, adroddwyd i'r Pwyllgor Pensiynau am gymeradwyaeth i ychwanegiadau at y gyllideb ar gyfer gweinyddu pensiynau a buddsoddi'r Gronfa. Eleni, yn unol ag arfer dda, adroddir ar gyfanswm y gyllideb flynyddol.

2. UNED GWEINYDDU PENSIYNAU

	Terfynol 2019/20	Chwyddiant	Addasiadau	Cyllideb 2020/21
Gweithwyr	£629,370	£12,480	£9,320	£651,170
Costau teithio a chynhaliath	£1,440	£0	£0	£1,440
Cyflenwadau a Gwasanaethau	£112,850	£3,070	£131,620	£247,540
Gwasanaethau Canolog	£113,280	£2,270	£0	£115,550
Cyfanswm	£856,940	£17,820	£140,940	£1,015,700

2.1 Gweithwyr, costau teithio a chynhaliath

Mae'r gyllideb ar gyfer yr uned yma yn cynnwys 18 swydd llawn amser a 1 swydd rhan amser. Gofynnir i gynyddu y cyllideb hyfforddiant gan bod y nifer o staff sydd yn mynychu hyfforddiant rheolaidd wedi cynyddu.

2.2 Cyflenwadau a Gwasnaethau

Mae'r gyllideb yma yn cynnwys costau argraffu, defnyddiau swyddfa a meddalwedd. Oherwydd cynydd yn nifer o aelodau'r Gronfa, mae'r penawd yma wedi bod yn gorwario ac felly gofynnir am gynnydd yn y gyllideb ar gyfer costau meddalwedd, cynnal y systemau, a postio.

2.3 Gwasanaethau Canolog

Mae'r gwasanaethau canolog yn cynnwys 20% o gostau'r Pennaeth Cyllid a'i staff ategol, a chefnogaeth gan wasanaethau'r Cyngor megis technoleg gwybodaeth, corfforaethol a chyfreithiol.

3. UNED BUDDSODDI

	Terfynol 2019/20	Chwyddiant	Addasiadau	Cyllideb 2020/21
Gweithwyr	£87,230	£1,990	£21,240	£110,460

3.1 Gweithwyr

Mae'r uned yma wedi ei leoli o fewn prif uned Cyllid Canolog felly dim ond elfen o'r swyddi a ariennir gan y Gronfa Bensiwn.

Ceir 3 swydd llawn amser yn yr uned gydag amser y swyddogion wedi ei rhannu rhwng Cronfa Bensiwn Gwynedd a Chyngor Gwynedd. Ariennir y canrannau canlynol o'r swyddi gan y Gronfa Bensiwn:

- Rheolwr Buddsoddi (85%)
- Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau (80%)
- Cyfrifydd Cynorthwyol Pensiynau a Rheolaeth Trysorlys (60%)

Yr addasiadau a ofynnir amdanynt yma ydi cynyddu oriau gwaith Rheolwr Buddsoddi o 0.8FTE i 1.0FTE a Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau o 0.62FTE i 1.0FTE, a lleihau graddfa Cyfrifydd Cynorthwyol Pensiynau a Rheolaeth Trysorlys.

4. ARGYMHELLIAD

- 4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21 ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau ac Uned Buddsoddi.